**Mark Drakeford AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid**
**Cabinet Secretary for Finance**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-811
Ein cyf/Our ref MD/00156/18

David John Rowlands AM
Chair - Petitions committee.
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff Bay
CF99 1NA

government.committee.business@wales.gsi.gov.uk

10 Ebrill 2018

Annwyl David,

Diolch am eich ebost dyddiedig 15 Mawrth, yn rhoi manylion deiseb gan Mr Paul Fear yn gofyn i Lywodraeth Cymru roi'r gorau i ddefnyddio a hyrwyddo ardystiad gweithwyr ar gontractau Llywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweld manteision gofyn am ardystiad gweithwyr mewn rhai achosion a defnyddir dull gymesur o ofyn am ardystiad gyda prosiectau adeiladu. Mae angen bod yn ddoeth wrth ddefnyddio cynlluniau ardystio i sicrhau bod prosiectau adeiladu yn cael eu cynnal yn ddiogel a chymwys, ac i alluogi contractwyr llai, lleol a masnachwyr i dderbyn gwaith uniongyrchol ac gwaith ar is-gontract.

Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio Cronfa Ddata Gwybodaeth am Gymwysterau Cyflenwyr wrth ddewis cyflenwyr, sy'n gofyn cwestiwn dewisol ynghylch y Cynllun Ardystio Sgiliau Adeiladu (CSCS), neu unrhyw system ardystio gyfatebol. Yn ymarferol, golyga hyn fod pob prosiect adeiladu yn cael ei asesu i benderfynu a yw natur y prosiect yn ei wneud yn ofynnol i gontractwyr gadarnhau fod gan eu gweithlu ardystiad CSCS.

Bwriad Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod costau defnyddio contractau cyhoeddus, gan gynnwys cyflogi drwy'r gadwyn gyflenwi, yn cael ei gadw cyn ised â phosibl.

Caiff y cynllun ardystio CSCS ei weithredu gan gwmni cyfyngedig dielw. Mae eu cyfarwyddwyr o sefydliadau cyflogwyr ac undebau sy'n cynrychioli'r diwydiant yn gyffredinol. Mae'r costau sy'n gysylltiedig ag ardystiad CSCS yn £30 am y cerdyn ei hun ac mae prawf Iechyd, diogelwch a'r amgylchedd CITB yn costio £19.50.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rwyf bob amser yn awyddus i'r dulliau caffael gael eu hadolygu i edrych ar ffyrdd eraill o sicrhau bod prosiectau adeiladu y sector cyhoeddus yn cynnig yr amgylchedd mwyaf diogel posibl i'r holl weithwyr hynny sy'n rhan o gyflawni'r cynlluniau. Byddaf yn monitro datblygiad y ddeiseb i ddeall a oes dull arall o gyflawni hyn.

Yn gywir.

Mark

**Mark Drakeford AM/AC**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid
Cabinet Secretary for Finance